

**Adroddiad Geraint Roberts ar ei ymweliad â Tuscany, Yr Eidal ar Mawrth 7 – 14, 2003 fel rhan o brosiect rheolaeth Ewropeaidd “Gwreiddiau ac Adenydd” a gefnogwyd yn ariannol gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.**

**Cyflwyniad a Chefndir i'r Prosiect.**

Mae'r prosiect Arweinyddiaeth a Rheolaeth Ewropeaidd “Gwreiddiau ac Adenydd” hwn wedi ei gynllunio mewn tair rhan gan gychwyn ym Medi 2002 ac wedi ei ddarparu ar gyfer penaethiaid ysgolion mewn tair gwlad Ewropeaidd. Gwahoddwyd naw pennaeth yr un o dair ardal yn Ewrop, sef Tuscany yn Yr Eidal, Vejle yn Nenmarc a siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin yng Nghymru i ymgymryd â'r prosiect. Y mae cylch o weithgareddau yn dilyn y patrwm o dridiau o gynhadledd ar faterion arweinyddiaeth a rheolaeth ac yna tridiau ar ymweliad ag ysgol uwchradd ymhob un o'r gwledydd yn eu tro.

Fe gychwynwyd ar y Cylch Cyntaf o weithgareddau ym Medi 2002 yng Nghymru gan orffen ym Mawrth 2003. Mae'r penaethiaid yn cyd-weithio mewn trioedd rhyngwladol, un o bob un o'r tair gwlad, gan geisio taclo materion arweinyddiaeth yn eu ysgolion gan rannu'r profiad gyda'r partneriaid. Mae'r holl weithgareddau dilynol hyn yn digwydd ar safwe Gwreiddiau ac Adenydd a grewyd yn arbennig ar gyfer rhannu profiadau.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at yr Ail Gylch o weithgareddau a gychwynwyd gyda'r ymweliad â Tuscany yn Yr Eidal ym Mawrth 2003 ac a fydd yn gorffen yn Hydref 2003 cyn cychwyn ar Gylch Tri.

**Amlinelliad o'r gweithgareddau a wnaethpwyd.**

Yr oedd yr Ail Gylch o weithgareddau wedi eu lleoli yn Tuscany yn yr Eidal gyda thridiau o gynhadledd ar arweinyddiaeth a rheolaeth ac yna tridiau mewn ysgol uwchradd. Prif bwrpas y gynhadledd oedd cadarnhau yr hyfforddiant a wnaethpwyd a chanolbwyntio ar y gweithgareddau datblygiadol a oedd wedi digwydd yn yr ysgolion unigol yn y cyfnod ers y gynhadledd gyntaf. Yn ystod y gynhadledd fe adolygwyd addysgu y gynhadledd gyntaf gan roi pwyslais ar broffil Hermann yr arweinwyr unigol, modelau hinsawdd ysgolion ac arddulliau arweinyddiaeth. Fe ddaeth hi'n amlwg trwy drafod, dadansoddi sefyllfaoedd a rhannu profiad, bod rhai dulliau arwain yn fwy defnyddiol mewn sefyllfaoedd arbennig. Er enghraifft, mae'r arddull Awdurdodol yn fanteisiol ar gyfer gosod gweledigaeth tymor hir yr ysgol, bod yr arddull Ddemocrataidd yn creu ymrwymiad ymhlith aelodau tîm o athrawon tra bod yr arddull Hyfforddiant yn

darparu datblygiad proffesiynol tymor hir i athrawon ac yn eu cynorthwyo i adnabod eu cryfderau a'u gwendidau unigryw yng nghyd-destun eu dyheadau.

Yn ystod y tridiau o gynhadledd fe ddatblygwyd ar y cysyniadau hyn a dyma restr o'r prif weithgareddau yn ystod y gynhadledd yn Florence:-

- Dysgu am gyfundrefn addysg Yr Eidal
- Llunio gweledigaeth am ysgol
- Strwythurau ysgol a datblygu arweinwyr ar bob lefel
- Pwyslais ar arweinyddiaeth y pennaeth
- Gwneud pethau yn wahanol
- Beth sydd o werth mewn ysgol a phwy yw'r cwsmeriaid?
- Hyfforddiant ar lunio dialog a symud tuag at hyfforddiant fel dull, sef holi a mynegi safbwynt a chodi lefel y berthynas o drafodaeth arwynebol i ddeall cred, gwerthoedd a theimladau cyd-weithwyr.

Yr oedd yr ail ran o'r wythnos yn cynnwys tridiau fel triawdau mewn ysgol yn Yr Eidal. Fe fum yn ymweld ag ysgol gelf Pierro della Francesca yn Arrezzo, tua 50 cilometr i'r de o Florence. Mae gan Yr Eidal gyfundrefn amrywiol o ysgolion gyda disgyblion yn gyffredinol yn dewis math o ysgol megis, academiaidd, galwedigaethol neu arbenigol pan yn 14 oed. Ysgol arbenigol ar dair safle yw'r ysgol gelf hon sydd yn bennaf yn paratoi disgyblion ar gyfer gwaith mewn un o'r 1,500 o ffatrioedd aur ac arian yn yr ardal neu yn y diwydiant celf a ffasiwn. Ysgol 14-19 oed yw hi gyda tua 550 o ddisgyblion a 128 o athrawon, nifer ohonynt yn gweithio ar gytundebau rhan amser. Adeiladwyd y prif adeilad tua 5 mlynedd yn ôl. Fe addysgir y disgyblion am 42 o oriau yn ystod chwe diwrnod o'r wythnos gyda'r athrawon yn dysgu am 18 awr dros 5 diwrnod. Yn ystod wythnos yr ymweliad yr oedd dros hanner y disgyblion ar deithiau preswyl cwricwlaidd mewn llefydd o ddiddordeb celfyddydol, megis Barcelona, Provence a Vienna. Dyma grynodedb o'r hyn a gyflawnwyd:-

- sgysiau a dialogau hir gyda'r pennaeth
- sgysiau gyda'r dirprwyon a staff gyda chyfrifoldebau arbennig
- taith o gwmpas pob ystafell ddosbarth ar y tair safle gan ymweld â gwersi

- sgwrsio gyda chadeirydd y corff llywodraethol a swyddog undeb yr athrawon
- mynychu sesiwn hyfforddiant T.G.Ch. athrawon
- trafod gyda rhai disgyblion
- tynnu lluniau i greu cyflwyniad powerpoint ar gyfer Y Strade
- cyfarfodydd triawd yn trafod arddull arweinyddiaeth a gweledigaeth y pennaeth a thrafod sylwadau y ddau bennaeth arall am y wybodaeth a gasglwyd am yr ysgol.

## **Perthnasedd y gweithgaredd i'r rôl fel Pennaeth**

Fe ddylai unrhyw ymweliad â sefydliad addysgol mewn gwlad arall, gyda chwmni o addysgwyr yn dilyn rhaglen strwythuredig o weithgareddau, bod yn fuddiol yn broffesiynol ac hefyd yn fwynhad. Ar ddiwedd yr ymweliad medraf restru y canlynol fel rhai o'r ffyrdd y mae'r gweithgareddau wedi bod yn berthnasol i mi fel athro a phennaeth.

- Fe gadarnhawyd y wybodaeth a'r sgiliau arweinyddiaeth a rheoli yn ystod y gynhadledd ar ddechrau'r wythnos. Roedd hyn yn fuddiol iawn yn enwedig yng nghyd-destun y proffil Hermann personol a ddarparwyd ar gyfer pob pennaeth. Fe seilwyd yr holl weithgareddau ar ddamcaniaethau ac athroniaeth ddiweddar ym myd arweinyddiaeth ac addysgu.
- Fe ddatblygwyd sgiliau arwain hefyd yn enwedig sgiliau holi, mynegi safbwynt yn seiliedig ar ffeithiau ar yr hyn a arsylwyd, cynnal dialog a dechrau ar y broses o hyfforddi cyd-weithwyr.
- Cyfle i drafod gyda darparwyr o wledydd eraill materion arweinyddiaeth a rheoli sydd yn berthnasol i ysgol fy hun.
- Er fod yr ysgol yn cael eu hystyried yn ysgol dda gan yr athrawon, ychydig o gyllid a ddarperir ar gyfer ysgolion Yr Eidal ac mae 97% o'r cyllid yn cael ei wario ar gyflogau. Mae cyflogau athrawon Yr Eidal rhwng traean a hanner y cyflogau a enillir yng Nghymru ond nid ydynt yn talu sut gymaint o dreth. Ychydig iawn sy'n weddill ar gyfer adnoddau, a hyd yn oed mewn ysgol gelfyddydol yr oedd yr adnoddau yn brin, e.e. un ystafell gyfrifiaduron oedd yno gyda tua 20 cyfrifiadur a ddarparwyd yn ddiweddar.

- Er y prinder adnoddau mae nifer o ddisgyblion yn y mwyafrif o ddsbarthiadau yn fach iawn, o gwmpas tua 13-15 disgybl, ac mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.
- Un o fanteision pendant yr ysgol yw'r berthynas agos rhwng y Pennaeth a'r disgyblion a'r athrawon. Mae disgyblion yn cael llais amlwg yng ngweithgareddau yr ysgol, e.e. mae'r pennaeth yn mynychu pob cyfarfod tymhorol o bob dosbarth, 37 cyfarfod i gyd, lle mae disgyblion yn mynegi eu barn ar bob agwedd ar waith yr ysgol gan gynnwys sylwadau am yr athrawon a'r addysgu. Fe adlewyrchir hyn trwy gynnwys 4 disgybl, allan o 19 aelod, ar gorff llywodraethol yr ysgol.
- Bod yn rhan o ddeialog proffesiynol yn trafod materion arweinyddiaeth gyda phenaethiaid profiadol mewn sefyllfa addysgol real.

### **Y manteision i'r gwaith fel Pennaeth wrth geisio gwella addysgu a dysgu.**

Yn dilyn yr ymweliad hwn yr wyf yn medru rhestru nifer o fantaeision wrth geisio gwella addysgu a dysgu yn fy ysgol fy hun a dyma rai ohonynt:-

- Nid wyf i, na'r wyth pennaeth arall o Gymru, a fu yn rhan o'r ymweliad hwn wedi gweld nifer o rinweddau y gellir eu hefelychu yn ein hysgolion yng Nghymru. Yn wir, mae'r neges i ni yn amlwg, sef bod prinder atebolrwydd yn perthyn i ysgolion Yr Eidal, prinder strwythurau staffio a chyfrifoldebau ar lefel yn is na'r dirprwy; yn wir nid oedd hyd yn oed arweinwyr pwnc yn bodoli yn yr ysgol. Mae hyn yn wendid sylfaenol mewn ysgol ac mae'n pwysleisio y potensial sydd gan rai newidiadau diweddar mewn addysg yng Nghymru, megis rheoli perfformiad, ar gyfer gwella addysgu a chodi safonau.
- Yn yr un modd, credaf bod prinder arweiniad ynglŷn â chynnwys y cwricwlwm, asesu, dulliau dysgu, hyfforddiant athrawon newydd, hyfforddiant mewn swydd ac ati yn Yr Eidal sydd yn arwain ni i werthfawrogi y datblygiadau sydd wedi digwydd yng Nghymru yn ddiweddar.
- Yn yr un modd y mae ysgolion Yr Eidal yn eiddgeddus o wasanaethau boreol, strwythurau bugeiliol a rhaglenni ABCh ysgolion Cymru ac yn feysydd nad ydynt yn bodoli yno.

- Er y diffyg strwythurau, mae ysgolion yr Eidal yn hyblyg iawn yn y ffordd y maent yn defnyddio staff ac oriau dysgu. Oherwydd y diffyg strwythurau y soniwyd amdanynt uchod, yr prif gyfrifoldeb sydd gan athro yw dysgu ac o ganlyniad y mae ganddynt oriau hyblyg iawn ac yn cychwyn ac yn gorffen diwrnod gwaith yn ôl yr amserlen ddysgu.
- Nid oes prosesau hunan-arfarnu nac arolygaeth gan ysgolion yr Eidal ac mae hyn yn llesterio gwella addysgu a chodi safonau.

### **Y manteision yr wyf yn bwriadu eu rhannu a datblygu ar gyfer fy ysgol, yn arbennig o ran codi safonau.**

Fe fu'r profiad o ymweld ag ysgol arall mewn gwlad dramor yn fuddiol iawn a charwn annog athrawon a rheolwyr eraill i ddefnyddio'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i ymweld â sefydliadau addysgol yng Nghymru, Lloegr a gwledydd tramor. Er y gwahaniaethau sylfaenol rhwng ysgolion yng Nghymru a'r Eidal, y mae'r profiad o ymweld ac adlewyrchu ar ysgolion yn werthfawr a charwn gynnig yr awgrymiadau canlynol ar gyfer eu datblygu ar gyfer Ysgol Y Strade.

- Cyflwynwyd yr angen am weledigaeth glir ar gyfer ysgol ac roedd y patrwm Ewropeaidd yn pwysleisio y dylai'r weledigaeth gynnwys – disgwyliadau uchel, plant yn mwynhau gwersi, plant yn hapus a diogel, pob plentyn yn gwneud yn dda, anelu at fod yr ysgol orau, digon o weithgareddau a bod yr ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd a gwaith. Does dim yn newydd yn y rhestr hon, ond pa mor lwyddiannus ydym yn llwyddo i wneud hyn ar gyfer pob disgybl?
- Gwneud ymdrech fwriadol i drafod materion arweinyddiaeth a rheolaeth yn gyson gydag aelodau y tîm rheoli a cheisio gwella'r ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion yn yr ysgol; yn yr un modd lle mae diffygion mewn arweinyddiaeth neu reolaeth yn cael eu hamlygu, gwneud ymdrech bwriadol i sicrhau na fydd yr un peth yn digwydd eto a cheiso meddwl am ffyrdd gwahanol o weithredu.
- Ceisio lledaenu'r neges bod y gweithdrefnau sydd yn bodoli yn yr ysgol yn rhai sydd yn hanfodol ar gyfer gwella'r ysgol a chodi safonau. Mae defnyddio prosesau o gynnal hunan-arfarniad adran, llunio cynllun datblygiad adran a gweithredu rheoli perfformiad yn brosesau nad ydynt yn bodoli yn Yr Eidal ac roedd hyn yn llesteirio datblygiad. Yn yr un modd nid oedd arweinwyr pwnc na rheolwyr canol yn bodoli yn ysgolion yr Eidal ac yr oedd hyn hefyd yn cael ei bwysleisio fel ardal o wendid.

- Oherwydd y prinder strwythurau yn ysgolion Yr Eidal, y mae cryn dipyn o hyblygrwydd yn bodoli er mwyn llwyddo i addysgu plant am 42 awr yn wythnosol; mae hyn yn neges ar gyfer ysgolion Cymru.
- Yn ysgol Pierro della Francesca, ac mewn ysgolion eraill yn Yr Eidal yr oedd plant 14 oed yn gorfod gwneud dewis pendant o ran cyfeiriad gyrfa ac ni fedrwn gefnogi hynny; yn wir yr oedd yr ysgol yn colli hanner eu myfyrwyr rhwng oedran 16 ac 17 ac roedd absenoldeb o wersi, yn enwedig y gwersi theori yn uchel, tua 25%. Ond ysgol arbenigol oedd hon ac roedd cysylltiad cryf gyda diwydiannau lleol ac yr oedd hi fel ysgol yn paratoi nifer fawr o ddisgyblion at fyd gwaith. Dyma neges glir i'r Strade ar gyfer disgyblion sydd yn tangyrraedd ac yn dadgysylltu eu hunain o waith ysgol ar ddiwedd CA3 ac yn ystod CA4.
- Cynnwys disgyblion, prif fachgen a phrif ferch efallai, ar gorff llywodraethol yr ysgol gyda'r rôl penodol o grynhoi'r safbwyntiau a fynegir yn y cynghorau blwyddyn a chyflwyno adroddiad tymhorol.
- Datblygu hyfforddiant fel dull o weithredu, gweithio gyda grwpiau llai o athrawon, gan fynd ati i wella pobl yn hytrach na dioddef aneffeithiolrwydd.
- Ma eathrawon Yr Eidal yn derbyn tâl ychwanegol am gyflenwi dros athrawon sydd yn absennol; tybed a ellir ystyried hyn yng nghyd-destun lleihau baich gwaith athrawon?
- Ystyried holiadur arfarnu gwersi a'u defnyddio mewn gwersi bugeiliol a chynghorau blwyddyn.

### **Sylwadau personol am y gweithgareddau a'u heffaith ar fy natblygiad proffesiynol.**

Fel yr ydwyf wedi ei grybwyll eisoes, yr wyf wedi elwa'n sylweddol o'r ymweliad, y gynhadledd a'r gweithgareddau yn Yr Eidal. Dyma grynodeb o'r ffyrdd yr wyf wedi elwa'n bersonol o'r gweithgareddau:-

- Gweithio ar faterion arweinyddiaeth gyda phenaethiaid eraill a gweld pennaeth arall yn gweithio
- Cael proffil Hermann personol a dadansoddi ardaloedd o gryfder a gwendid
- Dysgu ac ymarfer sgiliau hyfforddi a chreu dialog i ddadansoddi sefyllfa yn seiliedig ar ffeithiau

- Cymhwysu gwybodaeth am ysgolion Yr Eidal, yn gryfderau ac yn wendidau, ar gyfer Ysgol Y Strade
- Cael ein hannog i wneud pethau yn wahanol i'r ffordd draddodiadol arferol sydd yn bodoli mewn nifer o ysgol yng Nghymru.

## **Diwedd glo.**

Fe werthfawrogir y gefnogaeth ariannol a roddwyd gan Gyngor Addysgu Cyfferdinol Cymru tuag at gostau teithio, cyflenwi a llety am ran o'r cyfnod a ddisgrifiwyd yn y cais. Fe roddwyd cefnogaeth ariannol tuag at lety yn ardal yr ysgol gan Wasanaeth Addysg Rhanbarth Tuscany.

Geraint Roberts,  
Ysgol Gyfun Y Strade,  
Llanelli.

Mawrth 2003